

**Nodiadau o gyfarfod a gafodd ei gynnal gyda staff a llywodraethwyr Ysgol
Gynradd y Ddraenen Wen**

Dydd Mercher, 14 Tachwedd am 3.30pm

**Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor i ad-drefnu darpariaeth ysgolion yn ardal
Pontypridd**

Yn bresennol:

Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant

Lisa Howell, Uwch Swyddog Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Martyn Silezin, Swyddog Strategaeth 14-19 oed

Ellen Williams, Ymgynghorydd Adnoddau Dynol

Sophie Nicholls, Swyddog Graddedig Carfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Catrin Edwards, Pennaeth Trawsffurfio Gwasanaethau a Systemau Data

24 o aelodau o staff yr ysgol a'r corff llywodraethu.

Agorodd y pennaeth y cyfarfod.

Cyflwynodd Esther Thomas (ET) swyddogion y Cyngor.

Croesawodd ET bawb i'r cyfarfod ac amlinellu'r cynnig, y rhesymau dros y cynnig, pwrpas y cyfarfod, y broses ymgynghori a'r amserlenni yn ymwneud â'r broses ymgynghori a'r cynigion eu hunain pe baen nhw'n cael eu gweithredu.

Pe bai'r cynigion yn cael eu rhoi ar waith, byddai'r Cyngor am wneud y canlynol:

- Datblygu cyfleusterau addysg ôl-16 oed yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Y Beddau, a Choleg y Cymoedd, Nantgarw;
- Creu dwy ysgol 3-16 oed newydd ym Mhontypridd a'r Ddraenen Wen;
- Gwella a chynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy adeiladu ysgol newydd ar safle Ysgol Heol y Celyn - byddai'r adeilad yn uno'r ddarpariaeth Gymraeg yn Ysgol Heol y Celyn ac Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton;
- Diwygio dalgylchoedd Ysgol Uwchradd Pontypridd, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen a dalgylch 6ed dosbarth Ysgol Gyfun Bryncelynnog i fodloni'n well y galw am leoedd ysgol;

Bydd y newidiadau yma yn cael eu cyflawni drwy wneud y canlynol:

- Cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain a throsglwyddo'r ddarpariaeth ôl-16 oed i Ysgol Gyfun Bryncelynnog neu Goleg y

Cymoedd, Nantgarw. Ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n dewis addysg Gatholig, bydd darpariaeth chweched dosbarth ar gael yng Ngholeg Dewi Sant, Caerdydd;

- Cau Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gynradd Cilfynydd, a chreu ysgol 'bob oed' 3 -16 oed newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd Pontypridd;
- Cau Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn a chreu ysgol 'bob oed' 3-16 oed newydd ar safle Ysgolion Cynradd ac Uwchradd y Ddraenen Wen. Bydd dosbarth arbenigol ADY dynodedig yr awdurdod lleol sydd wedi'i leoli yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen hefyd yn cael ei symud i'r ysgol newydd.
- Cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol y Celyn. Bydd y disgyblion hynny sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol newydd a bydd y disgyblion hynny sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn Ysgol Heol y Celyn yn symud i'r ysgol 3-16 oed newydd yn y Ddraenen Wen;

Diwygio'r dalgylchoedd i ddisgyblion 11-16 oed o'r tair ysgol uwchradd a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol drwy wneud y canlynol:

- Trosglwyddo ardal Graig Pontypridd (sy'n rhan o ddalgylch Ysgol Gynradd Maes-y-coed) i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer Pontypridd (ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhan o ddalgylch Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen)
- Trosglwyddo dalgylch Ysgol Gynradd Coedpenmaen i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer Pontypridd (ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhan o ddalgylch Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen);
- Trosglwyddo dalgylch Ysgol Gynradd Gwauncelyn i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer y Ddraenen Wen (ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhan o ddalgylch Ysgol Gyfun Bryncelynnog).

Y bwriad yw rhoi'r newidiadau ar waith erbyn Medi 2022.

Cyfeiriodd ET at yr wybodaeth fanwl sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori a oedd wedi'i dosbarthu, a'r ffurflen ymateb ynghlwm wrthi, (roedd rhagor o gopïau o'r ddwy yn y cyfarfod) ac at dudalen 5 o'r ddogfen ymgynghori sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â sut gall pobl roi sylwadau.

Eglurodd ET y byddai'r cwestiynau / sylwadau / ymatebion yn cael eu cofnodi i'w cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori a fyddai'n cael ei fwydo yn ôl i'r Cabinet yn gynnar ym mis Ionawr 2019, ac adborth gan ddisgyblion yn yr un modd. Pwysleisiodd ET mai dyma gyfnod o ymgynghori a phe bai'r cynigion yn symud ymlaen at y cam nesaf (hysbysiad statudol), byddai gwrthwynebiadau yn cael eu derbyn a'u cofnodi yn ystod y cam hwnnw.

Yna, cafodd cwestiynau eu gwahodd.

C. Cawson ni wahoddiad i gyfarfod yng Nghwm Clydach. Am 3pm cawson ni wybod am y cynigion. Cawson ni wybod y byddai'r cynigion ar-lein y bore wedyn ond cafodd y cynigion eu rhoi ar-lein y diwrnod hwnnw a doedd dim digon o amser gyda ni i roi gwybod i staff. Rydyn ni eisiau i RCT wrando a rhoi mwy o amser i ni roi gwybod i'r rheiny y mae'r cynigion yn mynd i effeithio arnyn nhw.

A. Y rheswm dros gynnal y cyfarfod hwnnw oedd rhoi gwybod i bobl fel na fyddai'r cynigion yn ergyd.

C. Roedd gyda ni staff a gafodd wybod o'r cyfryngau cymdeithasol ac, yn amlwg, roedden nhw'n pryderu am eu swyddi.

A. Roedd embargo ar yr wybodaeth, a doedd hi ddim i fod i gael ei datgelu. Cafodd yr wybodaeth ei llwytho ar y wefan ar ôl diwedd y diwrnod gwaith.

A. Rydyn ni'n derbyn eich pwynt a ddylai hi ddim wedi digwydd felly rydyn ni'n ymddiheuro am y gwall hwnnw.

C. Pa dystiolaeth sydd ar gael i ddangos bod ysgolion 3-16 oed yn well ac yn codi safonau?

A. Mae gyda ni ysgol pob oed yn Ysgol Llanhari sy'n gweithio'n dda iawn.

C. Ein pryder yw nad oes tystiolaeth ar hyn o bryd ac rydyn ni'n poeni gan fod yr ysgol yma yn gweithio'n dda yn barod.

A. Gyda'r cwricwlwm newydd, bydd gan ddisgyblion gyfleoedd i ddatblygu a chreu continwmm o ddysgu.

A. Mae'n newydd ond rydyn ni'n edrych ar roi cyfleoedd i ddisgyblion iau ddefnyddio cyfleusterau nad ydyn nhw ar gael iddyn nhw ar hyn o bryd. Hoffen ni wrthio continwmm o ddysgu sy'n mynd law yn llaw â'r cwricwlwm newydd. Rydyn ni'n rheoli nifer ein disgyblion a dyma sut rydyn ni'n ceisio ei reoli yma. Does dim data gyda ni eto ynglŷn â'r ysgolion pob oed newydd yng Nghwm Rhondda gan eu bod nhw'n newydd iawn, fodd bynnag mae'r ysgolion wedi'u sefydlu ac mae cynnydd yn gadarnhaol iawn.

C. Ydych chi hefyd yn dweud wrthon ni y byddwch chi'n symud ymlaen, beth bynnag fo canlyniad yr ymgynghoriad.

A. Nac ydyn, rydyn ni'n derbyn sylwadau sy'n gwrthwynebu ac yn cefnogi'r cynigion, bydd hyn i gyd yn cael ei bwysu a mesur a'i werthuso.

C. Ble mae'r data?

- A. Mae data yn Lloegr ond doedden ni ddim eisiau defnyddio'r data yma oherwydd nad yw'n debyg am debyg gan fod y system yn gwbl wahanol.
- A. Siarad â Phenaethiaid yr ysgolion newydd yng Nghwm Rhondda am eu profiadau.
- C. *Rydw i wedi siarad â staff ar lawr gwlad a dydw i ddim yn cael adroddiadau da.***
- A. Mae hynny'n wahanol i'r hyn rydyn ni'n ei glywed gan ysgolion gan ein bod ni'n cael gwybodaeth am bontio gwych rhwng blynyddoedd 6 a 7. Cawn ni weithio ar ffaith yn unig.
- C. *Rydyn ni'n rhoi dyfodol ein plant yn y fantol heb dystiolaeth empirig. Os yw'r dystiolaeth honno'n bodoli, ddylen ni ddim gorfod mynd ar ei hôl hi a dylai hi fod yn blwmp ac yn blaen. Mae i'w weld yn arbed costau yn unig os yw hynny'n digwydd. Does dim modd i fi fod mewn dau le ar yr un pryd ac rydw i'n llywodraethwr yn Ysgol Heol y Celyn. Does dim ffurflen we ar-lein ar gyfer cynnig Ysgolion yr 21ain Ganrif hyn yn oed. Dyma un o'r prosesau gwaethaf i bobl gyflwyno ymatebion rydw i erioed wedi'i gweld. Dydw i ddim yn sicr bod modd i ni gael yr ymgynghoriad gorau posibl â'r cyhoedd ynglŷn â hyn.***
- A. Rydyn ni'n dilyn Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru yn nhermau'r hyn rydyn ni'n ei wneud a sut rydyn ni'n ymgynghori. Rydyn ni'n derbyn eich sylwadau ac mae croeso i chi anfon e-bost aton ni.
- C. *Rhaid i chi rollo i ddiwedd y ddogfen ymgynghori i ddod o hyd i'r ffurflen adborth.***
- A. Cawn ni edrych ar wneud y ffurflen adborth yn fwy amlwg ar-lein.
- C. *Fydd dim modd i rieni ofyn cwestiynau.***
- A. Bydd modd i rieni ofyn cwestiynau yn yr achlysur ym mis Ionawr fydd yn sesiwn wahanol ac yn fwy rhyngweithiol ei naws. Bydd modd i bobl ddod a gofyn eu cwestiynau fesul un.
- A. Rydyn ni o'r farn bod hyn yn fwy defnyddiol i rieni gan ei bod hi'n bosibl bod gyda nhw bryderon penodol am ddiogelu ac ati.
- A. Dyma achlysur cyhoeddus i'r gymuned hefyd.
- C. *Oes modd trosglwyddo rhai aelodau o staff (Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth)) i'r ysgol newydd yn lle dileu swyddi? Pam rydyn ni'n cyflwyno risg o golli athrawon da?***
- A. Rydyn ni'n cau ysgol ac agor ysgol newydd. Y fantais o wneud hynny yw rhoi cyfle i unrhyw aelodau o staff ymddeol yn gynnwys neu ddileu swyddi. Trwy gyfuno

ysgolion yn hytrach nag eu cau, does dim modd i ni gynnig y cyfle hwnnw.

C. Pam nad oes modd cyfuno ysgolion? Oes ffordd arall o'i wneud? Dydw i ddim eisiau gwybod os na fydd swyddi gyda ni mewn 4 blynedd. Mae staff yn gadael yn barod.

A. Mae corff llywodraethu dros dro yn cael ei sefydlu – yna mae pennaeth yn cael ei benodi. Bydd y corff llywodraethu dros dro a'r pennaeth yn gosod strwythur newydd o ran staff ac, o bosibl, yn dynodi swyddi'r strwythur newydd i staff yr ysgolion presennol.

C. Byddwch chi'n dal i golli staff da nad ydyn nhw eisiau aros.

A. Byddai rhai aelodau o staff yn gadael beth bynnag, yn ymddeol neu'n edrych am ddyrchafiad rywle arall, ond mae nifer yr aelodau o staff sydd wedi gadael yn y gorffennol o ganlyniad i gynigion eraill yn isel iawn, iawn.

C. Byddwch chi wastad yn clywed sibrydion ac rydw i wedi cael gwybod i bum neu chwe pherson golli eu swyddi.

A. Rydyn ni'n gwerthfawrogi bod hyn yn achosi straen. Fodd bynnag, unwaith i gorff llywodraethu dros dro a phennaeth gael eu penodi, cawn ni symud ymlaen. Rydyn ni'n ymgynghori â staff hyd at roi'r strwythur newydd yn ei le. Bydd dogfen hir sy'n tynnu sylw at brosesau hyn a'r disgrifiadau swyddi ar gyfer y strwythur newydd. Mae cyfle i chi ac undebau llafur fwydo'n ôl. Erbyn i chi wneud penderfyniadau, byddwch chi wedi cael yr holl wybodaeth.

C. Ydych chi wedi gweld y safonau yn cwmpo yn ystod y cyfnod cyn hyn wrth i bobl adael a chael swyddi newydd?

A. Nac ydyn, dydyn ni ddim. Mae'r safonau wedi aros yr un peth ond mae staff wedi gadael o ganlyniad i nifer o resymau.

C. Pe baen ni'n gwneud newid sylweddol yn yr ysgol, byddai rhaid i ni ymchwilio i hyn yn fanwl.

C. Oes modd i ni ddefnyddio'r arian hwnnw i wella ysgolion presennol?

A. Dydy hynny ddim o dan feini prawf yr arian.

A. Mae gwersi byddwn ni'n eu dysgu erbyn i hyn gael ei weithredu.

C. Fydd bandiau oedran, hynny yw ysgol isaf/ganol/uchaf?

A. Mae hynny'n benderfyniad i lywodraethwyr yr ysgol a'r pennaeth. Rydyn ni eisiau rhoi'r cyfle iddyn nhw ddefnyddio cyfleusterau sy'n fwy arbenigol.

C. Oes problem o ran hyfforddi gan fy mod i'n adnabod athro/athrawes yn y Porth

sydd bellach yn addysgu yn y lefel gynradd ar gyfer prosiect mathemateg.

A. Dydyn ni ddim yn gwybod yr amgylchiadau hynny i wneud sylw, ond rhaid bod y pennaeth yn y Porth o'r farn y bydd hyn yn cael effaith ar y disgyblion mewn ffordd gadarnhaol.

C. Bydd y pennaeth newydd yn bennaeth ysgol uwchradd mae'n siwr.

A. Na fydd, gallai unrhyw un fod yn bennaeth. Mae'n bosibl y gallai'r swydd gael ei hysbysebu'n genedlaethol.

C. O'r dosbarthiad arwain yng Nghwm Rhondda, sawl un ohonyn nhw sydd wedi cael hyfforddiant cynradd a sawl un ohonyn nhw sydd wedi cael hyfforddiant uwchradd?

A. Does dim gyda fi'r data hwnnw ar hyn o bryd.

A. Yn Nhonyrefail er enghraifft, mae cyn-ddirprwy bennaeth Ysgol Gynradd Tonyrefail yn ddirprwy arweinydd yn yr ysgol 3-19 oed newydd yn Nhonyrefail.

A. Rydw i'n credu y dylai niferoedd fod yn deg ond byddai rhaid i'r llywodraethwyr benderfynu hyn i sicrhau nad oes bwlch.

Pennaeth – buddsoddon ni yng Nghyfnod Allweddol 2 pan ddechreuais i fel Pennaeth a sylweddolais i ei bod hi'n rhy hwyr ar gyfer ein disgyblion, ac rydyn ni bellach wedi buddsoddi yn y feithrinfa i sicrhau ein bod ni'n adeiladu o'r gwaelod i fyny. Mae gyda fi angerdd i ddweud wrth benodi Pennaeth, dylai'r unigolyn deimlo'n angerddol am wneud yr un peth a bod yn effro i'r Cyfnod Sylfaen.

C. Fyddai meithrinfa llawn amser?

A. Bydd yn aros yr un peth ag y mae ar hyn o bryd. Bydd RhCT yn ariannu 50% o'r amser yn y feithrinfa ac yna cyfrifoldeb yr ysgolion a'r corff llywodraethu fydd yr hanner arall.

C. Sut bydd y corff llywodraethu yn cael ei ffurfio?

A. Bydd aelodau cyrff llywodraethu'r tair ysgol yn ffurfio corff llywodraethu dros dro 3-16 oed. Mae Panel Penodiadau'r Awdurdod Addysg Lleol yn penodi'r Awdurdod Addysg Lleol, rhiant-athro a chynrychiolwyr staff o gyrff llywodraethu presennol yr ysgolion. Unwaith i'r penodiadau gael eu gwneud, bydd y corff llywodraethu dros dro yn penodi Llywodraethwyr Cymuned.

C. Newidiadau i ddalgylchoedd – Mae niferoedd Gwauncelyn yn uwch ac rydyn ni'n colli dwy ysgol.

A. Dewis y rhieni yw hi o hyd. Mae niferoedd Gwauncelyn yn uwch ond fyddai dim chweched dosbarth pe bai'r cynigion yn symud ymlaen.

- C. Data ar dudalen 38 o'r ddogfen ymgynghori – 198 o blant yn 2022, 259 yn Heol y Celyn = 457; ond yn y tabl ar y gwaelod mae'r rhif yn llai (27 yn llai). Ysgol uwchradd – os ydych chi'n tynnu nifer y disgyblion chweched dosbarth, mae 26 o blant ar goll yn y tabl ar y gwaelod. Mae hyn yn peri pryder i fi gan ei fod yn effeithio ar y nifer sydd dros ben.**
- A. Mae'r tabl cyntaf yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol heb newidiadau i'r dalgylch. Mae'r tabl ar y gwaelod yn dangos y newidiadau i'r dalgylch wedi'u gwneud.
- C. A fyddai hynny yn achosi aflonyddwch os yw blynyddoedd 1 i 6 yn aros yr un peth, ond ym mlwyddyn 7 mae 60 o blant yn dod i'r ysgol newydd sydd wedi bod yno yn barod.**
- A. Rydyn ni wedi gwneud llawer gyda phontio. Mae'r ysgolion cysylltiedig yn chwarae rhan fawr mewn achlysuron pontio i sicrhau ein bod ni'n lleihau'r effaith yma, a'u bod nhw'n teimlo bod yr ysgol yn perthyn iddyn nhw gymaint â'r disgyblion sydd yno yn barod. Byddai'r disgyblion yma wedi pontio hefyd.
- C. Ond mae dim ond hanner sy'n dod i'r ysgol fel disgyblion newydd, yn hytrach na dechrau fel disgyblion newydd ar yr un pryd. Byddan nhw wedyn yn ymwthio i'r ysgol newydd**
- A. Dydy'r gair 'ymwthio' (invade) ddim yn air addas. Dyma'r rheswm pam rydyn ni'n ceisio creu cysylltiadau pontio cryf.
- C. Mae'ch dogfen yn nodi ei bod hi'n gadarnhaol bod diffyg pontio ar gyfer disgyblion ysgolion 3-16 oed – mae i'w weld yn annheg ar ddisgyblion ysgolion eraill.**
- C. Dydy hi ddim yn wir chwaith – unwaith y byddan nhw'n dod yma, bydd raid iddyn nhw fynd i Ysgol Bryncelynnog ar gyfer y chweched dosbarth sy'n gyfnod pontio arall.**
- C. Caeodd ysgolion yng Nghwm Rhondda a dechreuon nhw fel ysgolion newydd. Dydy hynny ddim yr un peth yma gan y byddan nhw yma yn barod. Bydd gyda ni blant Ysgol Heol y Celyn yn symud yma, gydag enw/bathodyn newydd, dydy hi ddim yn gwneud i'r disgyblion hynny deimlo fel bod croeso iddyn nhw.**
- A. Rydw i'n cytuno'n llwyr bod angen i ni sicrhau bod hyn yn cael ei leihau. Byddwn ni'n sicrhau bod gyda ni gyllid ychwanegol i ariannu rhai achlysuron pontio i geisio sicrhau bod croeso i bawb.
- A. Pennaeth – Rydyn ni'n gweithio'n galed i fod yn dîm y Ddraenen Wen a fydden ni ddim eisiau i bawb deimlo mai dyma ysgol y Ddraenen Wen gyda bathodyn newydd.
- C. Rydw i'n poeni y byddai'r safonau yn cwmpo gan fod y ddwy ardal mor**

wahanol.

C. Oes modd sefydlu corff llywodraethu dair blynedd ymlaen llaw?

A. Prif swyddogaeth y corff llywodraethu dros dro yw penodi pennaeth ac, ar ôl hynny, strwythur newydd o ran staff. Bydden ni'n talu rhywun i benodi pobl dair blynedd ymlaen llaw. Rhaid iddi fod yn synhwyrol. Yn nhermau pryderon uwch reolwyr, rydyn ni'n gofyn mewn cyfweiliadau am y dull ysgol 3-16 oed cyfan. Methodd rhai ymgeiswyr ardderchog ddigoni hyn a chawson nhw mo'r swyddi gan na edrychon nhw ar y strwythur yn ei gyfanrwydd. Rhaid iddyn nhw ystyried hyn o'r Cyfnod Sylfaen.

C. Mae'n hawdd i bennaeth ysgol uwchradd alw heibio i ysgolion cynradd a darllen yn y newyddion am bwysigrwydd y Cyfnod Sylfaen, ond fyddai dim modd gyda fi wneud sylw am yr ochr uwchradd o ran galw heibio i ysgol uwchradd am ychydig o fisoedd.

Roedd y tri phennaeth wedi'u penodi yng Nghwm Rhondda wedi cael hyfforddiant uwchradd.

C. Mae tudalen 37 o'r ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at ddewis rhieni fel rheswm ar gyfer y nifer bach sydd dros ben yn y Ddraenen Wen o'i gymharu ag Heol y Celyn, sy'n glod i'r ysgol yma. Wedi dweud hynny, mae hyn yn gwrthdroi ar dudalen 38 gan nodi mai 2.2% yw'r nifer dros ben a 19.2% yn y Ddraenen Wen. Mae cysylltiadau rhwng dewis rhieni a demograffig a fyddai'n awgrymu bod cyfradd geni uwch o lawer yn ardal Heol y Celyn.

A. Rydyn ni'n defnyddio cyfraddau geni ar gyfer hyn hefyd, ac mae rhai o'r rhain wedi'u hamcangyfrif gan fod llawer o'r plant heb gael eu geni eto.

C. Dylai'r holl wybodaeth honno fod yma gan ei bod yn wybodaeth nad ydyn ni'n ei gwybod. Rydw i'n teimlo'n gryf bod angen person allanol i ddod i graffu ar hyn cyn iddo gael ei gyhoeddi.

A. Rydych chi wedi gofyn y cwestiwn, ac mae modd i ni ddarparu'r data hynny.

C. Beth am y rheini na fyddan nhw'n gofyn y cwestiwn hwnnw ac yn meddwl nad ydyn nhw'n deall.

C. Rydw i a'm gwraig yn cefnogi darpariaeth Cymraeg yn gryf, ond dydy hyn ddim i'w weld yn y ffigurau. Mae'n bosibl ei fod e, ond does dim modd i fi ei weld. Os ydy'r rhieni'n byw yn y Ddraenen Wen ac eisiau darpariaeth Cymraeg, bydd rhaid iddyn nhw anfon y plentyn i Ysgol Heol y Celyn.

A. Mae arolwg Cymraeg yn cael ei ddefnyddio i gael gweld ble mae'r gofyn ac rydyn ni'n defnyddio hyn i wneud y penderfyniadau hyn.

C. Does neb wedi gofyn y cwestiwn hwnnw i fi.

A. Mae pob cartref lle rydyn ni'n gwybod bod babi wedi cael ei eni yn cael arolwg bob dwy flynedd. Ond mae ymatebion i'r arolwg yn isel iawn.

C. Os yw ymatebion yn isel mae'n broblem gan nad yw'n gynrychiadol.

C. Beth sydd wedi cael ei ystyried yn nhermau diogelwch ar y ffordd? Rydyn ni wrthi'n gweithio ar gynllun tair blynedd ar hyn o bryd.

A. Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'r adran Priffyrdd ynglŷn â hyn, ac rydw i'n gwybod eich bod chi wedi bod yn gweithio gyda Sustrans ar hyn. Yr hyn rydyn ni wedi'i wneud ar bob un o'n prosiectau yw darparu llwybr diogel i ddisgyblion ddod i'r ysgol newydd. Mae asesiad effaith traffig yn cael ei gynnal i edrych ar bob un o'r llwybrau – er enghraifft cafodd croesfannau sebra, byrddau arafu, ac ati, eu gosod yn y Porth i arafu traffig.

C. Bydd mwy o draffig – fydd hyn yn cael ei ystyried?

A. Mae RhCT wedi gwneud ymrwymiad bob amser i ariannu hyn ein hunain gan fod arian Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn berthnasol i wariant yn ffin yr ysgol yn unig.

C. Beth sy'n digwydd os na fydd modd gwneud hyn.

A. Byddwn ni'n gwneud iddo lwyddo. Mae gyda ni Beirianwyr Priffyrdd i wneud hyn. Byddai rhaid cynnal ymgynghoriad cynllunio pe bai'r cynnig yn symud ymlaen. Mae rheoliadau cynllunio llym y mae angen eu dilyn.

C. Pam nad oes modd i chi wneud y cynllunio yn gyntaf?

A. Does dim modd gwneud hynny gan nad ydyn ni'n gwybod a fydd y cynnig yn symud ymlaen eto. Mae rhaid i'r broses ymgynghori statudol ddechrau'n gyntaf. Rydyn ni'n gwario arian ar ddechrau gwaith cychwynnol sy'n ymchwilio i risgiau, hynny yw astudiaethau dichonolrwydd trwy ymchwil, ond byddai angen i ni wneud rhagor o waith ar hyn yn fanwl pe bai'r cynnig yn symud ymlaen. Mae rhaid i ni edrych ar y safle cyfan.

C. Allech chi gyflwyno hysbysiad statudol heb unrhyw ddarpariaeth am draffig? Os byddai hynny'n wir, bydden ni'n cyflwyno gwrthwynebiad?

A. Dyna wrthwynebiad cynllunio, yn hytrach na gwrthwynebiad ad-drefnu ysgolion. Dydy'r ffyrdd ddim yn berthnasol yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad yma.

C. Oes modd cael cynnig ar gyfer y ffyrdd ym mis Ionawr? Bydd y gymuned yn poeni am hyn.

A. Does dim modd rhoi gormod o wybodaeth gan y bydd pobl yn meddwl ein bod ni'n gwneud penderfyniad cyn canlyniad yr ymgynghoriad.

C. Dylai plant gerdded beth bynnag. Bydd lefel y traffig yn effeithio ar ardal y Ddraenen Wen yn gyffredinol. Rydw i'n deall eu bod nhw'n broblemau gwahanol yn nhermau'r broses, ond does dim modd i ni eu gwahanu nhw. Rydyn ni wedi ein hatal ar hyn o bryd gyda'r traffig, felly mae angen i ni feddwl am hyn.

A. Rydyn ni wedi agor mynedfeydd newydd i'r Porth er enghraifft a dyna opsiwn hefyd.

A. Rydyn ni'n meddwl am hyn ochr yn ochr â'n proses ymgynghori, ac mae croeso i chi wneud sylwadau am hyn nawr.

C. Mewn cyfnod ymgynghori, rydyn ni eisiau cymaint o wybodaeth â phosibl i fynd i'r afael â phryderon pobl. Pe byddech chi'n dangos rhai deilliannau posibl nid cynlluniau penodol, byddai angen i ni gael peth gwybodaeth.

C. Syniad pwy yw creu ysgol pob oed? Pe nad oedd y cyllid yma yn ei le, tybed a fyddai hyn yn digwydd a dydw i ddim yn gweld sut bydden ni'n elwa, ar wahân i'r cyfleusterau?

A. Mae swyddogion wedi ymchwilio i hyn.

C. Ydy dymchwel a sŵn wedi cael eu hystyried?

A. Dyma flaenoriaeth uchel. Gwnaethon ni hyn yn y Pant. Mae diogelwch yn hollbwysig ac rydyn ni'n lleihau hyn trwy weithio gyda'r cwmnïau adeiladu a'r ysgol i leihau aflonyddwch gymaint â phosibl. Mae rhaglenni adeiladu yn cael eu cynllunio lle bo'n bosibl i sicrhau bod y gwaith mwyaf swllyd yn cael ei gynnal yn ystod gwyliau'r ysgol ac ati.

C. Oes amserlen ar gyfer gwaith adeiladu? Mae'n bryder fel rhiant.

A. Amserlenni ar gyfartaledd yw 18 mis i 2 flynedd. Rydyn ni'n gweithio ar safleoedd ysgolion sydd ar agor – er enghraifft, y bloc gwyddoniaeth newydd yn Nhreorci; cafodd Ysgol Gynradd Treorci floc newydd hefyd. Mae contractwyr yn siarad â disgyblion mewn gwasanaethau i ymgysylltu â nhw yn ystod y prosesau adeiladu. Unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol y mae angen eu hystyried – bydd y contractwr yn gweithio yn ôl eu hamserlen.

C. Oes data ar sut cawson nhw eu heffeithio?

A. Doedd dim problemau. Rydyn ni'n trafod gyda phlant a staff am y broses gyfan ac mae diogelwch y plant yn hollbwysig.

C. Yn y ddogfen, mae'n dweud nad oes posibilrwydd o ymestyn yr adeilad yma. Pam gan fod digon o le? Fyddai'r ddarpariaeth ysgolion gynradd estynedig mewn dau adeilad?

- A. Gallai hi.
- C. *Dydw i ddim yn siwr sut byddai hynny'n gweithio gan ei bod hi'n teimlo fel ein bod ni'n dwyn ychydig o ystafelloedd ganddyn nhw.***
- A. Byddwn ni'n dod eto ac edrych ar yr adeilad gyda syrfewyr mewn perthynas â'r cynlluniau terfynol. Fyddwn ni ddim yn diystyru unrhyw beth wrth edrych ar y datrysiad gorau. Mae'n bosibl y bydd y £12 miliwn yn y gyllideb yn cynyddu yn y diwedd unwaith ein bod ni wedi cwblhau'r arolygon. Cost y rhaglen lawn yw £168 miliwn. Os ydyn ni o'r farn bod angen mwy o arian, mae modd i ni ofyn i Lywodraeth Cymru newid hyn. Bydd cynlluniau yn cael eu rhannu gyda staff i geisio eu barn nhw.
- C. *Os ydw i'n ceisio am swydd ar y safle newydd a dydw i ddim yn llwyddiannus. Fyddai hawl gyda fi ddweud fy nweud am yr hyn fydd yn digwydd?***
- A. Rydyn ni eisiau manteisio ar eich profiad, a byddai'r cynlluniau adeiladu yn eu lle cyn y strwythur o ran staff.
- C. *Beth yw'r meini prawf o ran penderfynu a fydd hyn yn mynd ymlaen? Faint o bwys sydd gan y gwrthwynebiadau / gwrthwynebiadau o ran diogelwch ar y ffordd? Rydw i'n tybio bod gan y rheiny sy'n cyflwyno'r cynnig yma hawl i bleidleisio?***
- A. Mae croeso i chi fynd i'r cyfarfod hwnnw o'r Cabinet.
- A. Mae adroddiad ymgynghori yn cael ei lunio ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori. Bydd y Cabinet yn ystyried yr holl wybodaeth a phenderfynu ar symud ymlaen at y cam nesaf neu beidio, sef cyflwyno hysbysiad statudol. Pe bai penderfyniad i symud ymlaen yn cael ei wneud, gallai gwrthwynebiadau gael eu gwneud.
- C. *Oes argymhelliad gan swyddogion – e.e. dylai hyn symud ymlaen.***
- C. *Fyddai cyfle gyda ni i gyflwyno sylwadau yn y cyfarfod?***
- A. Na fyddai, bydden ni wedi cael eich sylwadau a gwrthwynebiadau erbyn hyn, felly byddai'r Cabinet yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar yr wybodaeth honno fydd yn yr adroddiad ymgynghori.
- C. *Pam cafodd ein hysgol ei dewis? Rydyn ni wedi lleihau nifer y disgyblion i sicrhau bod gyda ni'r amgylchedd addas ar gyfer yr ysgol hon. Brwydron ni am estyniad a methon ni. Beth am gyfuno Ysgol Heol y Celyn ag Ysgol Parc Lewis?***
- A. Rhaid i'r Awdurdod Lleol edrych ar y llun cyfan ar gyfer RhCT. Mae'n bos jig-so cymhleth ac rydyn ni'n edrych ar stoc pob ysgol. Dydy'r ddarpariaeth ôl-16 oed yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ddim yn gynaliadwy. Dydyn ni ddim wedi dewis y Ddraenen Wen achos nad yw'n gwneud cynnydd. Rydyn ni'n edrych ar reoli pob

ased, lle a daearyddiaeth. Rhaid i ni edrych yn ehangach ac rydyn ni'n gwybod pa mor llwyddiannus y mae'r ysgol hon.

- C. *Pan welais i'r cynigion yn gyntaf, roeddwn i'n meddwl y byddai mynd i un ysgol ar gyfer eich addysg gyfan yn fuddiol. Maen nhw i'w gweld fel dwy ysgol sy'n rhannu uwch reolwyr.***
- A. Cyfrifoldeb rheolwyr a staff yr ysgol yw gwneud iddi deimlo fel ysgol 3-16 oed.
- C. *Os bydd dosbarthiadau ar yr ochr arall, fydd yr elfen gynradd ddim yn cymysgu â disgyblion hŷn os ydyn nhw ar wahân neu byddai plant tair oed yn mynd draw yn y glaw.***
- A. Mae'n ddiddorol yr ydych chi o'r farn honno. Roedd rhieni ymgynghoriad Cwm Rhondda eisiau eu cadw nhw ar wahân.
- C. *Fy mhrif bryderon yw bod fy nyhead personol am safle integredig wedi'i wireddu, ond os bydd yr elfen gynradd yn cael ei rhannu rhwng y ddau safle, fydd hi ddim yn dda ar gyfer eu hiechyd a diogelwch na'u cyrhaeddiad.***
- C. *Does dim data cadarn gyda ni am yr ysgolion hyn ond rydw i'n gadael yma heno gan feddwl – 'yr holl aflonyddwch yma a beth fydd yn newid?'. Mae hon yn aros fel yr ysgol hon ac maen nhw'n cael bloc newydd ac ati.***
- A. Dydych chi ddim yn gwybod hynny eto. Mae'r datrysiadau wedi'u creu o ran rhai ysgolion eraill yn fodern iawn ac maen nhw'n gweithio.
- A. Fydden ni ddim eisiau iddyn nhw fod ar wahân.
- C. *Fydden ni o dan anfantais gyda gwaith adnewyddu?***
- A. Dyma pam mae penseiri yn rhan o hyn. Maen nhw'n meddwl mewn ffordd greadigol am sut rydyn ni'n gwneud hyn.
- A. Mae ansawdd y gwaith adnewyddu er enghraifft yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail newydd o'r un ansawdd ag ysgol newydd sbon.
- C. *Bydd ymdeimlad yr ysgol yn dibynnu ar y drefn. Rydw i'n meddwl y bydd hyn yn dda ar gyfer cwricwlwm Donaldson, ond rhaid cael daearyddiaeth y safle yn iawn.***
- C. *Dydy pob un ohonon ni ddim yn eistedd yma yn erbyn y cynnig, ond rydyn ni eisiau mewnbwn a dyma le mae modd i ni ofyn y cwestiynau hyn.***
- A. Ydych, ac mae rhaid i chi ofyn.
- A. Os ydych chi'n siarad â phenaethiaid yr ysgolion newydd, rydw i'n siwr y byddan nhw'n dweud iddyn nhw gael mewnbwn mawr o ran hyn.

C. Oes modd i un o'r penaethiaid ddod?

- A. Rydyn ni'n gobeithio dod â rhai o'r penaethiaid i'r achlysuron cyhoeddus, lle bo'n bosibl. Daeth pennaeth Ysgol Llanhari i'r achlysuron cyhoeddus blaenorol ond mae gyda ni ragor o benaethiaid all ddod a chael gwared â rhai rhagdybiau. Mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau am y data cyrhaeddiad ond yn nhermau cynnal yr ysgol, rydyn ni'n gobeithio cael rhywun yma.

C. Amserlen gweld cynlluniau?

- A. 2022 yw'r dyddiad gorffen ond rydyn ni'n gobeithio bod mor hyblyg â phosibl i geisio gwneud y cyfnod pontio cyn gynted ag sy'n bosibl, pe bai'r cynnig yn symud ymlaen. Gan weithio'n ôl o 2022, byddai cynllun gyda ni erbyn diwedd y flwyddyn nesaf ar gyfer yr adeiladau.

C. Allai staff presennol fewnbynnu gan ddweud yr hyn maen nhw ei eisiau?

- A. Gallen, ond rydyn ni eisiau cael safon yn unol â Bwletinau Adeiladu ac ati.

C. Pryd byddai'r cyfnod pontio yn dechrau?

- A. Mae'r cyfnod ochr yn ochr â'r strwythur o ran staff. Rydyn ni'n gofyn y cwestiwn hwnnw mewn cyfweiliadau gan mai swyddogaeth y Pennaeth yw gwrthio'r gwaith pontio ymlaen cyn gynted ag y bo modd.

C. Os bydd swyddi staff yn cael eu dileu, sut byddan nhw'n cael gwybod?

- A. Mae'r Cabinet yn fforwm cyhoeddus felly caiff unrhyw un fynd a gwranddo i gael gwybod a fydd y cynnig yn symud ymlaen neu beidio.
- A. Os oes gan unrhyw un unrhyw broblemau, dewch i siarad â swyddogion Adnoddau Dynol – mae modd trefnu cyfarfodydd unigol yn ôl yr angen. Mae cyfleoedd i bobl ystyried ymddeol a dileu swydd os ydyn nhw eisiau gwneud hynny, ond mae cyfleoedd eraill hefyd. Mae modd i ni edrych am gyfleoedd adleoli ac mae hynny'n cael ei wneud ar y funud olaf yn aml, ond byddwn ni'n ceisio trefnu hyn cyn gynted ag sy'n bosibl. O ran cynlluniau blaenorol, mewn perthynas â staff nad oedden nhw eisiau swydd, roedd nifer bach iawn o staff nad oedden nhw wedi cael swydd.

C. Oes modd i ni gael y ffigurau hynny?

- A. Oes, ac mae gyda ni nifer y staff a gafodd ddyrchafiad yn ystod y broses hon hefyd.

Pennaeth – Mae Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) wedi trefnu cyfarfod, ac roedd yn gyfarfod cadarnhaol i staff.

Rhoddodd ET ddiolch i bawb am ddod i'r cyfarfod a'u sylwadau.

Daeth y cyfarfod i ben.